

Iechyd Synhwyrdd: Ystadegau Gofal Llygaid a Chlyw yng Nghymru

28 Mehefin 2017

Cefndir

Beth yw'r ystadegau hyn?

Mae'r ystadegau hyn yn crynhoi gwasanaethau Gofal Llygaid a Chlyw a ddarperir yng Nghymru. Cyn 2012-13 eu cwmpas oedd gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a ddarparwyd o ran ystadegau gweithgaredd o safbwynt profion golwg a thalebau a roddir, a hefyd ystadegau gweithluoedd. Ers 2012-13 mae'r cwmpas wedi ei ymestyn i gynnwys data crynhoi o amrywiaeth o wasanaethau gofal llygaid eraill yng Nghymru. Ers 2016-17 mae'r cwmpas wedi ei ymestyn ymhellach i gynnwys data ar fyddardod ac awdioleg. Ei nod yw goleuo polisi Llywodraeth Cymru ar ofal llygaid ac awdioleg ac ar gynllunio a darparu gwasanaethau offthalmig lleol.

Cwmpas

Mae'r ystadegau'n ymdrin â'r gwasanaethau canlynol:

- Gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol
 - Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (GOS)
 - Meddygon Teulu
 - Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW)
- Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) (a adwaenir gynt fel Gwasanaeth Sgrinio Retinopat heg Diabetig Cymru (DRSSW))
- Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbyty
- Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru
- Ardystio a Chofrestru fel bod â nam ar y golwg, nam difrifol ar y golwg a nam ar y clyw
- Gweithlu sylfaenol ac ysbytai
- Detholiad o ystadegau ar nifer y bobl sy'n dioddef byddardod, sy'n defnyddio cymorth clyw ac sy'n defnyddio gofal ysbyty ar gyfer cyflyrau sy'n gysylltiedig â'r clyw

Yn yr adroddiad hwn cyfeirir at nifer o gyflyrau ar y golwg. Mae gwybodaeth gefndir am y cyflyrau hyn ar gael yn yr [wefan RNIB](#).

Mae gwasanaethau golwg llygaid ar gael "ar-alw", ar y stryd fawr yn bennaf, gan y sector preifat. Er nad yw data o'r fath yn cael ei gasglu'n ganolog, mae nifer fawr o brofion golwg yn cael eu cynnal yn gwbl breifat, heb gymorth ariannol gan y Llywodraeth.

Cyn 2010-11 roedd ystadegau profion golwg a thalebau'n cael eu cyhoeddi gan NHS Digital (a adwaenid gynt fel y Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSCIC)) sydd o hyd yn cyhoeddi ystadegau ar y gweithlu offthalmig.

Ynghylch yr adroddiad ansawdd hwn

Mae'r adroddiad ansawdd hwn yn hysbysu defnyddwyr faterion ansawdd, gan gynnwys diwygiadau, i'r datganiad Iechyd Synhwyrdd blynyddol.

Yn yr adroddiad ansawdd hwn

Cefndir	1
Cyflwyniad i Wasanaethau Gofal Llygaid Cymru	2
Ffynonellau data, diffiniadau a gwybodaeth am ansawdd	4
Byddardod	18
Cryfderau a chyfyngiadau	23
Cylch prosesu data	24
Gwybodaeth ansawdd allweddol	25
Perthnasedd	25
Cywirdeb	26
Amseroldeb a phrydlondeb	26
Hygyrchedd ac eglurder	26
Cymharedd a chydlyniaeth	27

Cyflwyniad i Wasanaethau Gofal Llygaid Cymru

Gwasanaethau Gofal Llygaid Sylfaenol – Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (GOS)

Argymhellir prawf golwg gan optometrydd o leiaf bob dwy flynedd fel rhan o drefn gofal iechyd pawb gan fod hyn yn gallu lleihau'r perygl o golli golwg y gellid ei atal. Gall prawf golwg hefyd ganfod problemau iechyd cyffredinol eraill fel pwysedd gwaed uchel.

Argymhellir profion golwg blynyddol i blant hyd at 16 oed, o leiaf bob dwy flynedd i rai rhwng 16 a 69 oed ac yna'n flynyddol i bobl 70 oed a hŷn oni bai bod eu hoptometrydd yn eu cynghori'n wahanol. Cynghorir pobl â diabetes neu â hanes o glawcoma yn y teulu i gael profi eu llygaid bob blwyddyn.

Mae llawer o bobl yn gymwys i gael prawf golwg Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol (GOS) y GIG am ddim, gan gynnwys:

- pobl 60 oed a hŷn
- plant o dan 16 oed (neu o dan 19 oed ac mewn addysg llawn amser)
- pobl â diabetes
- pobl 40 oed a hŷn sydd â pherthynas agos â glawcoma
- pobl sy'n gymwys i gael budd-daliadau penodol

Gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol – Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru

Mae cynllun Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW) yn cynnig archwiliadau llygaid estynedig am ddim i grwpiau o'r boblogaeth sydd mewn mwy o risg o glefydau llygaid penodol ac i rai y byddai colli eu golwg yn arbennig o anodd, fel pobl sydd eisoes yn ddall mewn un llygad.

Mae optometryddion yn darparu archwiliadau llygaid EHEW i bobl sydd:

- â golwg mewn un llygad yn unig
- â nam ar eu clyw neu sy'n hollol fyddar
- â retinitis pigmentosa
- yn dod o grŵp ethnig Du (sy'n cynnwys cefndiroedd Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig neu Ddu arall) neu Asiaidd (sy'n cynnwys Indiaidd/Pacistanaid/Tsieineaid/Bangladeshaid/Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd arall)
- mewn perygl o glefyd y llygaid oherwydd hanes teuluol
- yn profi problemau â'r llygaid sydd angen sylw brys

[Mae rhestr o optometryddion sydd wedi'u hachredu ag EHEW.](#)

Gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol - Meddygon Teulu

Mae meddygon teulu'n atgyfeirio cyfran fach o bobl â phroblemau â'u llygaid at y gwasanaeth llygaid mewn ysbyty.

Gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol – Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru

Cynigir y gwasanaeth hwn i bawb sy'n gymwys, sy'n 12 oed a hŷn gyda diabetes ac sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio unedau sgrinio symudol, sy'n ymweld ag ardaloedd y gwahanol Fyrddau Iechyd

Y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty

Mae offthalmolegwyr yn feddygon sydd wedi cael hyfforddiant meddygol ac mae ganddynt sgiliau arbenigol i wneud diagnosis ac i drin clefydau'r llygaid. Mae offthalmolegwyr yn gweithio mewn Adrannau Offthalmoleg mewn ysbytai (y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty) yn bennaf. Mae'r cyflyrau mwyaf cyffredin yn cynnwys cataractau, glawcoma, diabetes a Dirywiad Macwlaidd (Gwlyb a Sych). Mae pob Adran Offthalmoleg yn cynnwys clinigau cleifion allanol ac mae gan lawer hefyd adrannau damweiniau llygaid, theatrau llawdriniaeth a manau cynnal triniaethau laser.

Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru

Nod y gwasanaeth hwn yw helpu pobl â nam ar eu golwg i barhau'n annibynnol trwy ddarparu cymhorthyddion golwg gwan fel chwyddwyr, a chynnig addysg, atgyfeiriadau a hyfforddiant adsefydlu priodol. Mae Golwg Gwan yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio problem â'r golwg na ellir ei gywiro â sbectol, lensys cyffwrdd na thriniaeth feddygol. Mae dros 200 o ymarferwyr wedi'u hachredu ac maent yn cynnig y gwasanaeth mewn practisau optometreg yng Nghymru. Ceir atgyfeiriadau gan ystod o weithwyr proffesiynol a chan unigolion eu hunain.

Ardystio a Chofrestru fel bod â Nam ar y Golwg a Nam Difrifol ar y Golwg

Defnyddir Tystysgrif Nam ar y Golwg (CVI) i gofnodi cleifion â nam ar eu golwg fel rhai â nam difrifol ar eu golwg neu nam ar eu golwg. Gyda chydysyniad y claf ac ar ôl iddi gael ei llofnodi gan offthalmolegydd ymgynghorol, y CVI yw'r hysbysiad ffurfiol i Awdurdodau Lleol i asesu anghenion yr unigolyn ar gyfer gwasanaethau ac i'w cofrestru fel pobl â nam neu nam difrifol ar eu golwg. Bydd copi o'r CVI sy'n cynnwys gwybodaeth am y cyflwr ar y llygad sy'n achosi'r nam ar eu golwg hefyd yn cael ei anfon i Ysbyty Llygaid Moorfields sy'n coladu ac yn dadansoddi'r data ar gyfer cofrestradau newydd bob blwyddyn.

Gall cofrestru â chyngor lleol ei gwneud yn haws i gael cymorth ymarferol gan adran gwasanaethau cymdeithasol y claf. Gall hefyd fod yn "basbort" i gael consesiynau a buddiannau, fel teithio, parcio a gostyngiad ym mhpris y drwydded deledu. Er enghraifft, yn ogystal â chael cymorth â thasgau pob dydd, gall cofrestru fel rhywun â nam neu nam difrifol ar eu golwg roi'r hawl i glaf i gael consesiynau teithio ac eraill fel Cerdyn Rheilffordd Pobl Anabl a chynlluniau teithio lleol. Os yw claf wedi cofrestru fel bod â nam difrifol ar ei olwg, bydd ganddynt hefyd hawl i gael lwfans treth, profion golwg am ddim gan y GIG, consesiynau parcio a phostio rhai eitemau am ddim. Gall pobl sydd wedi'u hardystio fel bod â nam ar eu golwg ddewis peidio â chofrestru.

Ffynonellau data, diffiniadau a gwybodaeth am ansawdd

Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol (GOS) – Profion golwg a thalebau

Mae data gweithgaredd ar **brofion golwg** y telir amdanynt gan y GIG, talebau optegol a gwaith trwsio'n cael ei gasglu trwy gyfres o ffurflenni'r Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol (GOS) a ddefnyddir ym mhroses daliadau'r gwasanaeth offthalmig:

- GOS1 – Profion golwg y GIG, gan gynnwys gwybodaeth am statws cymhwysedd y claf.
- GOS2 – Y presgripsiwn neu'r datganiad optegol a roddir i'r claf. Ni ddefnyddir y ffurflen hon ar gyfer adrodd.
- GOS3 – Talebau optegol y GIG – gan gynnwys gwybodaeth am statws cymhwysedd y claf.
- GOS4 – Talebau trwsio / adnewyddu optegol y GIG – gan gynnwys gwybodaeth am statws cymhwysedd y claf a'r math o daleb.
- GOS5 – Profion golwg preifat gyda chymorth rhannol at y gost lawn.
- GOS6 – Profion golwg yn y cartref.

Ceir y data hwn gan Wasanaethau Gofal Sylfaenol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae ystadegau offthalmig yn cyfeirio at wasanaethau a ddarperir gan ymarferwyr offthalmig sydd â chontractau â Byrddau Iechyd.

Mae mwyafrif helaeth y ffurflenni'n cael eu hanfon fel ffurflenni papur gan Wasanaethau Gofal Sylfaenol sy'n cofnodi pob GOS 3, GOS 4, GOS 5, GOS 6 ar y system daliadau. GOS 1 yw'r unig ffurflen sy'n cael ei chofnodi fesul swp; fodd bynnag mae Gofal Sylfaenol ar hyn o bryd yn defnyddio cysylltiad electronig lle mae practisau'n anfon ffurflenni GOS 1 yn uniongyrchol i'r system daliadau. Ar hyn o bryd (2015-16), mae 26 o storfeydd wedi'u cysylltu yng Nghymru ac mae trefniadau i gysylltu rhagor. Mae Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn cyflenwi data gweithgaredd cyfanredol (prawf golwg a thalebau) pob Bwrdd Iechyd ar yr ystadegau hyn i Wasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru ar ddechrau Ebrill ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r [System Taliadau Offthalmig Ganolog](#) yn cofnodi hawliadau i'r Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol, yn awtomeiddio'r broses dalu, yn cynhyrchu'r ystadegau gofynnol ac yn cynnwys cyfarpar atal a chanfod twyll. Ceir gwybodaeth fwy manwl am y System Taliadau Offthalmig Ganolog trwy ddilyn y ddolen ganlynol.

Noder: er nad yw data o'r fath yn cael ei gasglu'n ganolog, mae nifer fawr o brofion golwg yn cael eu gwneud yn breifat, heb gymorth ariannol gan y Llywodraeth.

Diffiniadau

Cymhwysedd ar gyfer profion golwg

O dan y canllawiau presennol ac ar adeg cyhoeddi'r datganiad hwn, mae'r grwpiau canlynol yn gymwys i gael prawf golwg y GIG. Noder: bu rhai newidiadau i gymhwysedd profion golwg dros y blynyddoedd, a fyddai wedi effeithio ar gyfanswm ffigurau cyfres amser y profion golwg:

- Cleifion 60 oed a hŷn
- Plant o dan 16 oed
- Myfyrwyr 16-18 oed mewn addysg llawn amser
- Oedolion sy'n cael Cymhorthdal Incwm a'u partneriaid
- Oedolion sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) yn seiliedig ar incwm
- Oedolion sy'n cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) seiliedig ar incwm*
- Oedolion sy'n cael credyd Gwarant Credyd Pensiwn (PCGC) *
- Oedolion sy'n cael Credyd Cynhwysol
- Oedolion sy'n cael Credyd Treth
- Cleifion sydd â thystysgrif HC2
- Cleifion a gofrestrwyd yn ddall neu'n rhannol ddall
- Rhai sydd â glawcoma a diabetes
- Cleifion sydd wedi cael eu hysbysu gan offthalmolegydd eu bod mewn perygl o glawcoma
- Perthnasau agos rhywun sy'n ddioddef o glawcoma sydd dros 40 oed
- Cleifion sydd angen lensys cymhleth

**Mae ffigurau ar gyfer PCGC ac ESA wedi eu cynnwys gyda Chymhorthdal Incwm yn ein hadroddiadau.*

Dylid cofio y gall pobl fod yn gymwys i gael prawf golwg y bydd y GIG yn talu amdano ar sail mwy nag un maen prawf. Fodd bynnag, byddant yn cael eu cofnodi ar sail un maes prawf yn unig ar y ffurflen GOS. Mae cleifion yn fwy tebygol o gael eu cofnodi'n ôl eu hangen clinigol na'u hoedran. Er enghraifft, mae claf dros 60 oed gyda glawcoma'n debygol o gael ei gofnodi yn y categori glawcoma yn unig. Mae'r cyfrif fesul cymhwysedd felly'n fras.

Mae gwybodaeth am brofion golwg a delir gan y GIG fesul cymhwysedd cleifion yn seiliedig ar sampl o 2 y cant ar gyfer Byrddau Iechyd sy'n cofnodi data swp neu gyfanredol ar y System Daliadau. Yn achos y Byrddau Iechyd hyn mae nifer y profion golwg fesul cymhwysedd cleifion yn cael eu rhoi fel ffigurau gros i roi cyfanswm hysbys y Byrddau Iechyd.

Credyd Cynhwysol

Mae Credyd Cynhwysol yn daliad sengl newydd i bobl sy'n chwilio am waith neu sydd ar incwm isel. Dechreuwyd cyflwyno Credyd Cynhwysol yn 2013. Mae ystadegau ar hawl wyr Credyd Cynhwysol yn cael eu cyhoeddi gan yr [Adran Gwaith a Phensiynau](#).

Tystysgrif HC2 neu HC3

Gall rhai pobl ar incwm isel fod yn gymwys i gael help tuag at gostau'r GIG. Mae'r hawl i gael help yn seiliedig ar amgylchiadau fel lefel incwm, cynilion ac ati. Bydd angen cwblhau ffurflen HC1 'Cais am Help gyda Chostau Iechyd' gan roi manylion am amgylchiadau'r hawlydd. Anfonir Tystysgrif HC2 neu HC3 at y sawl sy'n gymwys i gael help. Mae HC2 yn golygu bod pobl yn gymwys i gael y gost lawn. Mae HC3 yn golygu bod pobl yn gymwys i gael peth help tuag at gostau iechyd.

Profion Golwg yn y Cartref

Mae mwyafrif y profion golwg y bydd y GIG yn talu amdanynt yn cael eu cynnal ar safleoedd ymarferwyr. Cynhelir cyfran fechan o brofion y tu allan i safleoedd offthalmig. Mae'r rhain yn cynnwys profion golwg a gynhelir yng nghartrefi pobl ac mewn cartrefi preswyl. Cesglir y data hwn trwy'r ffurflen GOS6.

Ad-delir costau profion golwg yn y cartref ar ddwy gyfradd:

- Y gyfradd uwch – os mai'r claf yw'r cyntaf neu'r ail i'w weld mewn cyfeiriad
- Y gyfradd is – y trydydd claf neu rai dilynol a welir yn yr un cyfeiriad.

Profion golwg preifat a rhai sy'n cael rhywfaint o help

Nid yw nifer y bobl sy'n talu'n llawn am brofion golwg yng Nghymru'n cael ei gasglu gan y GIG. Mae gan gleifion â thystysgrifau HC3 fel rhan o'r cynllun incwm isel hawl i gael lefelau amrywiol o gymorth ariannol tuag at brofion golwg preifat. Mae'r data'n cael ei gasglu trwy'r ffurflen GOS5.

Talebau optegol y GIG

Cyflwynwyd cynllun talebau optegol y GIG yng Ngorffennaf 1986. O dan y cynllun hwn, roedd cleifion a arferai fod yn gymwys i gael sbectolau'r GIG yn cael talebau optegol y GIG tuag at brynu sbectol o'u dewis eu hunain, neu i gael lensys newydd yn eu fframiau presennol. Ers Ebrill 1988, gellir defnyddio talebau'r GIG hefyd tuag at dalu cost lensys cyffwrdd. Gall cleifion gael taleb ar gyfer mwy nag un pâr o sbectolau. Mae data talebau optegol yn cael ei gofnodi trwy ffurflenni GOS3 sy'n cael eu cofnodi'n llawn at y System Daliadau.

Mae cymhwysedd i gael talebau optegol y GIG yn wahanol i gymhwysedd i gael profion golwg a delir gan y GIG. Mae'r grwpiau canlynol yn gymwys i gael talebau optegol y GIG. Noder: bu rhai newidiadau i gymhwysedd talebau dros y blynyddoedd, a fyddai wedi cael effaith ar gyfanswm cyfres y ffigurau amser talebau:

- Plant o dan 16 oed
- Myfyrwyr mewn addysg llawn amser 16-18 oed
- Oedolion sy'n cael Cymhorthdal Incwm a'u partneriaid
- Oedolion sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm a'u partneriaid
- Oedolion sy'n cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a'u partneriaid
- Oedolion sy'n cael credyd Gwarant Credyd Pensiwn a'u partneriaid
- Oedolion sy'n cael Credyd Cynhwysol
- Oedolion sy'n cael Credyd Treth a'u partneriaid
- Cleifion ar incwm isel sydd â thystysgrif HC2 neu HC£
- Cleifion sydd angen lensys cymhleth.

Gan fod ffurflenni GOS3 yn cael eu cofnodi'n llawn ar y System Daliadau, mae ystadegau cymhwysedd talebau'n fwy dibynadwy na ffigurau cymhwysedd profion golwg sy'n seiliedig ar sampl.

Talebau'r GIG i gael trwsio sbectol neu i gael sbectol newydd

Mae gwybodaeth am dalebau'r GIG i drwsio neu i brynu sbectol newydd wedi'i chofnodi trwy ffurflenni GOS 4 sy'n cael eu bwydo i'r System Daliadau. Mae cymhwysedd ar gyfer talebau trwsio neu brynu'r un fath ag ar gyfer talebau optegol. Fodd bynnag, rhaid i gleifion gyflenwi gwybodaeth ychwanegol sy'n disgrifio sut yr oeddent wedi colli neu dorri eu sbectol.

Ansawdd y data

Mewn rhifynnau blaenorol o'r datganiad roedd carcharorion wedi'u rhyddhau dros dro wedi'u cynnwys fel categori cymwys ar gyfer profion golwg a thalebau'r GIG. Roedd hyn yn anghywir ac mae'r ffigurau hyn yn awr wedi'u dileu o bob siart a thabl lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, roedd y niferoedd yng Nghymru'n fychan.

Archwiliadau lechyd Llygaid Cymru

Ceir y data hwn gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) sy'n cadw cronfa ddata ar ran Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu'r ceisiadau a geir gan ymarferwyr achredig sy'n cynnal archwiliadau. Mae data'n cael ei gyflwyno fel niferoedd yr archwiliadau y gwneir cais amdanynt yn unol â'r sail dros yr hawliadau, canlyniadau a Bwrdd lechyd yr optometrydd sy'n darparu'r gwasanaeth. Mae hyn yn cyfrif nifer yr archwiliadau lle gwnaethpwyd cais ac a dalwyd yn y flwyddyn ariannol yn hytrach na nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae hawliadau fel arfer yn cyfeirio at archwiliadau sy'n cael eu cynnal yn y mis cyn y cais a'r taliad ond os nad yw'r practis yn cyflwyno'u hawliadau'n rheolaidd gall yr oedi fod yn hwy, hyd at uchafswm o 6 mis.

Noder: fod y cynllun a'r ffurflen hawlio berthnasol wedi'u haddasu ers Ebrill 2013. Mae hyn wedi golygu:

- Na ellir cymharu data ar gyfer 2013-14 â data a oedd wedi'i gyhoeddi'n flaenorol ar gyfer 2012-13.
- Roedd y data ar gyfer 2013-14 yn gysylltiedig â'r 11 mis o Fai 2013 hyd Fawrth 2014 pan gafodd taliadau o dan y cynllun wedi'i addasu eu gwneud.

Ers 2016-17 cafodd gwybodaeth ychwanegol ar oedran cleifion, rhesymau am eu presenoldeb, symptomau a chamau a gymerwyd ei chyhoeddi.

Diffiniadau

Ers 2013-14 mae strwythur ffioedd ar ffurf bandiau wedi ei ddefnyddio fel a ganlyn:

Band 1: Mae'r archwiliadau hyn yn galluogi cleifion â chyflyrau llygaid aciwt; rhai mewn categorïau mewn perygl o ddatblygu clefydau llygaid neu rai a fyddai'n wynebu anawsterau difrifol os byddent yn colli eu golwg i gael archwiliad llygaid am ddim.

Band 2: Mae'r archwiliadau hyn yn galluogi cleifion i gael archwiliadau ychwanegol fel y gall yr optometrydd neu OMPau gael mwy o wybodaeth am eu hatgyfeiriad, ymchwilio i ganfyddiadau clinigol neu benderfynu ar ddull rheoli ar ôl prawf golwg (GOS neu breifat).

Band 3: Mae'r archwiliad hwn yn galluogi cleifion i gael apwyntiad dilynol ar ôl apwyntiad cychwynnol ar gyfer EHEW.

Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru

Mae niferoedd cyfanredol y cleifion yn deillio o gofnodion cleifion ac fe'u defnyddir fel gwybodaeth i reoli'r DESW ac maent wedi'u defnyddio ar gyfer y datganiad ystadegol hwn. Nid oes dim data sy'n gysylltiedig â chleifion unigol wedi'i drosglwyddo yn y broses hon.

Pan fydd claf yn cael diagnosis o ddiabetes gan feddyg teulu bydd atgyfeiriad yn cael ei anfon at DESW a bydd y claf yn cael ei gofrestru a'i wahodd i gael ei sgrinio. Bydd y sgrinio'n digwydd mewn uned symudol neu ystafelloedd gofal iechyd. Mae gwybodaeth am y claf, gan gynnwys delweddau retinaidd, yn cael eu storio ar gronfa ddata DESW.

Mae DESW yn dilysu'r gronfa ddata'n fisol yn erbyn [Gwasanaeth Demograffig Cymru](#) i sicrhau ei fod wedi'i alinio â phreswylwyr byw Cymru. Mae'r niferoedd hefyd yn cael eu dilysu'n rheolaidd yn erbyn cofrestrau diabetes meddygon teulu.

O dan safonau Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol (NSC) y DU, rhaid i gleifion newydd sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth gael cynnig apwyntiad sgrinio o fewn 13 wythnos. Os yw canlyniad y sgrinio yn normal yna bydd cleifion yn cael eu galw'n ôl i gael eu sgrinio eto o fewn 12 i 15 mis.

[Mae gwybodaeth gefndir am ddiabetes ac am broblemau llygaid cysylltiedig.](#)

Diffiniadau

Cleifion gweithredol cymwys: Mae'r rhain yn gleifion sy'n ateb y meini prawf cymhwysedd ar gyfer sgrinio a all gael apwyntiad wedi'i drefnu. Mae cleifion sy'n dod o fewn y categori "Anweithredol Cymwys" yn ateb y meini prawf ar gyfer sgrinio, ond ni chânt apwyntiad wedi'i drefnu am eu bod naill ai wedi cael eu hatgyfeirio at, neu eu bod ar y pryd o dan ofal y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty.

Cleifion anweithredol parhaol yw'r rhai hynny sydd naill ai wedi cael gwrthod eu sgrinio, sydd wedi symud allan o'r ardal neu nad ydynt bellach yn ddiabetig.

Apwyntiadau wedi'u trefnu: roedd y rhain yn arfer cael eu disgrifio fel "gwahoddiadau i sgrinio"; dyma oedd nifer y llythyrau apwyntiadau a argraffwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Mae nifer yr apwyntiadau wedi'u trefnu'n cyfrif nifer yr apwyntiadau cleifion a oedd wedi'u trefnu i ddigwydd yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r ffigur yn galluogi DESW i gymharu ffigurau presenoldeb a DNA, ac nid oedd y ffigur blaenorol yn galluogi hynny.

Cofrestriadau newydd: Y rhain yw nifer y cleifion newydd a gofrestrwyd yn ystod y cyfnod adrodd.

Canlyniadau a adroddwyd: Dyma nifer y llythyrau canlyniadau a argraffwyd ar gyfer y cleifion a gafodd eu sgrinio yn ystod y cyfnod adrodd.

Mathau o ddiabetes: "MODY" yw [Maturity Onset Diabetes in the Young](#). Mae hwn yn fath gwahanol o ddiabetes i Fath I/II.

Canlyniadau sgrinio: Mae'r canlyniadau canlynol yn cael eu cofnodi ar gronfa ddata DESW ac maent yn cael eu crynhoi yn yr ystadegau hyn:

Noder: Mae'r dosbarthiad retinopathi a macwlopathi bellach wedi newid yn unol â'r protocol graddio'r Llwybr Cyffredin a ddaeth i rym ar 26 Tachwedd 2014 ([DESW Common Pathway grading protocol](#)).

Graddio canlyniadau: defnyddir protocol graddio sy'n gwahaniaethu rhwng presenoldeb y clefyd yn y llygad (neu lygaid) sydd wedi'i effeithio waethaf o safbwynt retinopathi a macwlopathi a'u graddfa berthynol.

Yn yr ystadegau hyn, mae'r canlyniadau canlynol yn cael eu crynhoi:

Dim retinopathi: o ran graddio mae hyn yn R0M0.

Unrhyw retinopathi: o ran graddio mae hyn yn cyfeirio at unrhyw ganlyniad sy'n fwy difrifol na R0M0 (e.e. R1M0)

Retinopathi / macwlopathi sy'n bygwth y golwg: mae'n cynnwys canlyniadau R1M1, R1M2, R2, R2M0, R2M1, R2M2, R3, R3M0, R3M1, R3M2, M2, R3AM1, R3SM1, R3AM0

Retinopathi / Maculopathi difrifol: mae'n cynnwys canlyniadau R3, R3M0, R3M1, R3M2, M2, R3AM1, R3AM0

Retinopathi sefydlog wedi'i drin: mae'n cynnwys canlyniadau R3SM0 a R3SM1.

Noder fod canlyniad graddfa macwlopathi M2 wedi'i ddefnyddio cyn protocol graddio'r Llwybr Cyffredin. Mae hwn yn awr wedi'i newid i M1 (macwlopathi diabetig atgyfeiriadwy). Mae data gan DESW yn y datganiad cyfredol yn adlewyrchu'r newid hwn. Noder efallai na fydd pob claf sydd â chanlyniad sgrinio o retinopathi sy'n bygwth y golwg wedi'u cynnwys yn nifer yr atgyfeiriadau; efallai y bydd rhai, er enghraifft, eisoes o dan ofal y gwasanaeth llygaid mewn ysbyty.

Retinopathi sefydlog sydd wedi'i drin: Yn y protocol graddio blaenorol cyn protocol graddio'r Llwybr Cyffredin, tybiwyd fod pob retinopathi ymledol (R3) yn gallu bygwth y golwg. Ym mhrotocol graddio presennol y Llwybr Cyffredin, mae canlyniad newydd wedi'i ychwanegu (R3S) ar gyfer achosion lle nad oes angen triniaeth ar unwaith.

Atgyfeiriadau: pob atgyfeiriad at y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty yn dilyn sgrinio.

Atgyfeiriadau brys: pob atgyfeiriad at y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty yn dilyn sgrinio sydd angen apwyntiad ysbyty, a dylai 95 y cant ohonynt gael eu gwneud o fewn 14 diwrnod o'r atgyfeiriad.

Atgyfeiriadau buan: Ers 2014-15 nid yw'r categori atgyfeiriad buan ar gael. Daeth hyn i rym ar 26 Tachwedd 2014 yn sgil symud i Brotocol Graddio'r Llwybr Cyffredin. Mae'r cleifion hynny a fyddai wedi cael eu hatgyfeirio i'r categori buan yn awr yn cael eu cynnwys yn y categorïau rheolaidd neu frys, yn ddibynnol ar angen clinigol.

Ansawdd data

Noder: mae darnau bach o ddata ar goll o fewn rhai meysydd o ystadegau DESW. Mae canrannau'n cael eu cyfrifo mewn cofnodion â gwerthoedd datganedig. Nid oedd modd graddio canlyniadau faint o gleifion sy'n cael eu sgrinio bob blwyddyn (rhwng 2,000 a 3,000 fel arfer).

Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty

Amseroedd aros:

Yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth (RTT) yw'r cyfnod rhwng atgyfeiriad gan Feddyg Teulu neu ymarferydd meddygol arall i ysbyty i gael triniaeth yn y GIG yng Nghymru. Mae llwybr atgyfeiriad i driniaeth yn cynnwys yr amser a arhoswyd rhwng atgyfeiriad i ysbyty i gael triniaeth yn y GIG yng Nghymru ac mae'n cynnwys amser aros am unrhyw apwyntiadau ysbyty, profion, sganiau neu driniaethau eraill a all fod eu hangen cyn y brif driniaeth. Mae peth o'r derminoleg a ddefnyddir wrth adrodd ar Amser rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth wedi newid. Yn y gorffennol, wrth gyhoeddi'r ystadegau hyn, roeddem yn defnyddio'r derminoleg 'cleifion'. Fodd bynnag, roedd rhai defnyddwyr yn camddechongli hyn fel cleifion unigryw pan oedd yn bosibl i unigolyn fod ar nifer o restrau aros ar gyfer gwahanol gyflyrau – h.y. byddai un claf ar fwy nag un llwybr.

Am ragor o wybodaeth am amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, gweler:

[Gwefan Ystadegau a Ymchwil: Amseroedd atgyfeiriad am driniaeth](#)

[Gwefan StatsCymru: Llwybrau cleifion ar gau yn ôl y mis, y bwrdd iechyd lleol a'r wythnosau aros](#)

[Gwefan StatsCymru: Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl misoedd ac wythnosau wedi'u grwpio](#)

Atgyfeiriadau GIG:

Mae ystadegau Atgyfeiriadau'r GIG yn deillio o'r Set Ddata Atgyfeiriadau Cleifion Allanol (OPR DS) ac mae'n cyfrif nifer yr atgyfeiriadau a gafwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol Cymru ar gyfer apwyntiad cyntaf cleifion allanol ag ymgynghorydd, ym mha bynnag ardal mae'r claf yn byw. Y dyddiad atgyfeirio yw'r dyddiad pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn cael yr atgyfeiriad ac nid y dyddiad pan gafodd y claf ei atgyfeirio. Mae'r data'n cynnwys pob claf, ym mha ardal bynnag maent yn byw, sydd wedi'i atgyfeirio at Fwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru. Ni fydd y data hwn yn cynnwys unrhyw atgyfeiriadau, er enghraifft, gan Feddyg Teulu wedi'i leoli yng Nghymru i ysbyty y tu allan i Gymru (e.e. Lloegr). Fodd bynnag, bydd yn cynnwys atgyfeiriadau gan Feddyg Teulu ar gyfer apwyntiad mewn Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru i bobl sy'n byw y tu allan i Gymru.

Yn dilyn dadansoddiad a gyflwynwyd mewn [Erthygl Ystadegol](#), cafodd cyfres ystadegol newydd, '[Atgyfeiriadau GIG ar gyfer apwyntiadau cyntaf fel cleifion allanol](#)' ei sefydlu ac mae'n cynnwys data ar Feddygon Teulu a phob atgyfeiriad. Mae atgyfeiriadau Meddygon Teulu, mathau o driniaethau (yr arbenigedd sy'n rhan o driniaeth y claf), yn cyfrif ar y mwyaf am tua 70 y cant o'r holl atgyfeiriadau ar gyfer apwyntiadau cyntaf fel cleifion allanol. Mae amrywiadau mewn arferion cofnodi rhwng byrddau iechyd ac nid yw pob ffynhonnell o godau atgyfeiriadau wedi'u cofnodi. Ers

mis Hydref 2014 mae nifer y byrddau iechyd sydd wedi cyflwyno data ar “ffynonellau atgyfeirio eraill” wedi cynyddu’n sylweddol ac mae hynny wedi arwain at gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau nad ydynt yn cael eu gwneud gan Feddygon Teulu ers mis Hydref 2004. Yn achos offthalmoleg mae hyn wedi bod yn gynyddol bwysig gan fod nifer cynyddol o atgyfeiriadau’n dechrau dod yn uniongyrchol oddi wrth optometryddion yn hytrach na thrwy Feddygon Teulu. Rhaid bod yn ofalus felly wrth ddadansoddi atgyfeiriadau offthalmoleg dros amser, yn enwedig ar gyfer y blynyddoedd hynny’n union ar ôl y newid mewn codio. Ar y cyfan, dylid bod yn ofalus wrth ddadansoddi’r ffigurau hyn gan fod gwaith gwella ansawdd data’n parhau.

Am ragor o wybodaeth am Atgyfeiriadau’r GIG gweler:

[Gwefan Ystadegau & Ymchwil: Atgyfeiriadau GIG ar gyfer apwyntiadau cyntaf fel cleifion allanol](#)

[Gwefan StatsCymru: Atgyfeiriadau fesul math o driniaeth a mis](#)

Cyn mis Hydref 2012, roedd y ffynhonnell data ar gyfer atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu ar gyfer apwyntiadau cyntaf fel cleifion allanol yn gasgliad data cyfanredol o atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu.

Ystadegau cleifion preswyl a chleifion dydd

Ffynhonnell y data yw Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW) sy’n gronfa ddata o gofnodion cleifion ysbytai unigol a gedwir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS). Ceir rhagor o wybodaeth ar ffynhonnell y data hwn ar [wefan PEDW](#).

Diffinnir derbyniad fel y cyfnod cyntaf o ofal preswyl o dan ofal un ymgynghorydd gan un darparwr gofal iechyd. Mae derbyniadau’n cael eu cyfrif yn erbyn y flwyddyn pan maent yn cychwyn. Noder nad yw derbyniadau’n cynrychioli nifer y cleifion unigol, gan y gall unigolyn gael ei dderbyn fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn.

Mae’r codau a ddefnyddir yn Nhablau 7 ac 8 fel a ganlyn:

Diagnosis Codes for Eye related conditions

Age Related Macular Degeneration

Diagnosis_Code	Description
H353	Degeneration of macular and posterior pole

Cataract

Diagnosis_Code	Description
H25	Senile cataract
H26	Other cataract
H281	Cataract in other endocrine, nutritional and metabolic dis
H282	Cataract in other diseases classified elsewhere
Q120	Congenital cataract

Diabetic Retinopathy

Diagnosis_Code	Description
H360	Diabetic retinopathy

Sy'n cyd-fynd ag un o'r codau canlynol...

Diagnosis_Code	Description
E103	Insulin-dependent diabetes mellitus with ophthalmic comps
E113	Non-insulin-dependent diabetes mellitus with ophthalmic comps
E123	Malnutrition-related diabetes mellitus with ophthalmic comps
E133	Other specified diabetes mellitus with ophthalmic comps
E143	Unspecified diabetes mellitus with ophthalmic complications

Glaucoma

Diagnosis_Code	Description
H40	Glaucoma
H42	Glaucoma in diseases classified elsewhere
Q150	Congenital glaucoma

Procedure Codes for cataract surgery

Cataract Surgery

Operation_Code	Description
C71	EXTRACAPSULAR EXTRACTION OF LENS
C72	INTRACAPSULAR EXTRACTION OF LENS
C73	INCISION OF CAPSULE OF LENS
C74	OTHER EXTRACTION OF LENS
C751	INSERTION OF PROSTHETIC REPLACEMENT FOR LENS NEC
C754	INSERTION OF PROSTHETIC REPLACEMENT FOR LENS USING SUTURE FI
C758	OTHER SPECIFIED
C759	UNSPECIFIED

Laterality of Operation

Operation_Code	Description
Z942	RIGHT SIDED OPERATION
Z943	LEFT SIDED OPERATION

Ystadegau Cleifion Allanol:

Mae gweithgaredd cleifion allanol yn deillio o ystadegau QS1 hyd fis Rhagfyr 2012. Gwnaethpwyd penderfyniad i roi'r gorau i gasglu gweithgaredd cleifion allanol yn ystadegau QS1 a, phan yn bosibl, cael gwybodaeth am weithgaredd cleifion trwy ddefnyddio'r Set Ddata Isafswm Cleifion Allanol. Ers rhifyn 2013-14 o'r datganiad hwn cafodd Set Ddata Isafswm Cleifion Allanol ei defnyddio fel ffynhonnell y data hwn ar gleifion allanol (ar gyfer pob blwyddyn) ac o'r herwydd nid oes modd cymharu'r data yn y datganiad hwn â'r hyn a gyhoeddwyd cyn y dyddiad hwn.

Noder nad yw'r data ar Gleifion Allanol yn cyfateb i [Weithgaredd StatsCymru ar gleifion allanol](#), gan fod y data a gyflwynir yma fesul darparwr Cymreig, ac sy'n cynnwys gweithgaredd a ddarperir gan sefydliadau Cymreig a data a gyflwynwyd gan sefydliadau o Loegr gyda chofnodion ar gyfer cleifion sydd wedi'u cofrestru â Meddyg Teulu o Gymru. Fodd bynnag, mae data StatsCymru wedi'i gyflwyno fel gweithgaredd Cymreig (h.y. gweithgaredd cleifion allanol sy'n digwydd ar safle ysbytai yng Nghymru, sy'n cynnwys gweithgaredd sefydliadau Seisnig mewn ysbytai yng Nghymru ac nad yw'n cynnwys gweithgaredd sy'n digwydd yn Lloegr ar gyfer preswylwyr neu sefydliadau Cymreig).

Am ragor o wybodaeth, gweler yr Erthygl Ystadegol [Outpatient Activity Minimum Dataset: publication of data and discussion of data quality](#).

Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru (LVSW)

Mae LVSW yn paratoi asesiad blynyddol gan ymarferwyr achredig yng Nghymru. Mae cyfansymiau cyfanredol o asesiadau a gynhaliwyd sy'n deillio o gronfa ddata cleifion LVSW yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i reoli'r gwasanaeth ac maent wedi'u cyflwyno i ddibenion yr ystadegau hyn. Mae gwybodaeth ddemograffig am gleifion ynghyd â chyflyrau hunangofnodedig wedi'u cofnodi. Er bod y gwasanaeth yn darparu asesiad blynyddol mae nifer o resymau pam nad yw cleifion yn cael eu gweld bob blwyddyn; er enghraifft, efallai eu bod yn dewis peidio â chael asesiad arall neu os nad oes newid amlwg yn lefel eu golwg yn ystod prawf golwg dilynol mae'n bosibl na fydd yr optometrydd yn eu galw'n ôl yn awtomatig.

Mae data LVSW sy'n ymwneud ag ethnigrwydd yn cael ei gasglu gan aelodau hyfforddedig o'r staff sy'n gofyn i gleifion â pha grŵp ethnig maent yn uniaethu'u hunain. Mae hyfforddiant penodol yn cael ei ddarparu gan LVSW i wneud yn siŵr bod hyn yn cael ei wneud yn briodol ac nad yw staff practisau'n cymryd dim yn ganiataol. Mae'r holl ddata a ddarperir gan LVSW yn cael ei gofnodi gan gleifion heblaw am ddata ar graffter Golwg.

Cyfeirir at nifer o gyflyrau mewn ystadegau ar gyfer data Gwasanaeth Gofal Gwan Cymru. Mae gwybodaeth gefndir am y cyflyrau hyn ar gael yn yr [wefan RNIB](#).

Atgyfeiriadau cleifion newydd

Mae nifer yr atgyfeiriadau newydd at y gwasanaeth wedi'u rhoi gan LVSWS ers 2013-14 ynghyd â ffynhonnell yr atgyfeiriad os yw wedi'i gofnodi. Mae ffynonellau atgyfeiriadau sy'n cael eu cofnodi gan LVSWS yn cynnwys atgyfeiriadau gan optometryddion, offthalmoleg (y gwasanaeth llygaid mewn ysbyty), gwasanaethau cymdeithasol, y sector gwirfoddol, Meddygon Teulu, ffrindiau/perthnasau / eu hunain, addysg, cyflogaeth. Pob blwyddyn mae nifer fach o atgyfeiriadau lle nad yw ffynhonnell yr atgyfeiriad wedi'i chofnodi.

Mae LVSWS hefyd yn atgyfeirio cleifion ymlaen at ffynonellau eraill gan gynnwys optometryddion, offthalmoleg, gwasanaethau cymdeithasol, Meddygon Teulu a grwpiau gwirfoddol. Dechreuodd LVSWS gasglu data ar ethnigrwydd ei gleifion ar 1 Hydref 2014.

Craffter golwg

Mae craffter golwg yn cael ei gofnodi fel rhan allweddol o'r meini prawf asesu ond noder y gall cleifion gael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau sy'n effeithio ar y golwg nad ydynt bob amser yn cyflawni meini prawf cyffredinol Craffter Golwg AVSW ar gyfer y gwasanaeth. Mae achosion nad ydynt yn cyflawni'r meini prawf craffter golwg cyffredinol yn cael eu derbyn yn ôl disgrisiwn Arweinydd Clinigol y LVSWS.

Mae craffter golwg yn cael ei fesur yn ôl y "ffracsiwn Snellen" trwy gymharu'r pellter mewn metrau lle mae claf yn gallu darllen llythyren yn gywir o'i gymharu ag unigolyn â golwg "normal"; felly, er enghraifft, mae 6/6 yn golygu bod yr unigolyn yn gallu darllen llythyren yn gywir mewn prawf 6 metr i ffwrdd fel y gallai unigolyn â golwg "normal" ei wneud hefyd . Mae 6/12 yn golygu bod unigolyn yn gallu darllen llythyren 6 metr i ffwrdd y dylai unigolyn â golwg "normal" allu ei darllen yn gywir 12 metr i ffwrdd. Mae'r categorïau a gofnodir gan LVSWS ac sy'n cael eu cyfanredu i'w cyflwyno yn y datganiad hwn fel a ganlyn:

6/6 +

6/7.5 - 6/12

6/15 – 6/48 (h.y. llai na 6/12 i 6/60)

6/60 - 6/120

6/150 - 6/600

HM: ni allai'r unigolyn weld dim o'r llythrennau ar y siart ond gallai weld symudiadau dwylo

NPL: ni allai'r unigolyn weld golau

VA heb ei gofnodi: mewn nifer fach o achosion efallai nad oedd yn bosibl cofnodi craffter golwg; er enghraifft yn achos cleifion nad oedd yn gallu cymryd y profion.

Cafodd y categorïau hyn eu cyfanredu yn y datganiad hwn fel a ganlyn:

6/12 neu well

Gwaeth na 6/12 ond yn well na 6/60

6/60 neu waeth (gan gynnwys HM a NPL)

Mae'r nifer fach o achosion lleol na chafodd craffter golwg ei gofnodi wedi'u hepgor o'r tabl.

Ardystio a Cofrestru fel bod â nam a nam difrifol ar y golwg

Mae pobl sydd â nam ar eu golwg yn cael eu cofrestru gan awdurdodau lleol ar ôl i offthalmolegydd ardystio'r nam ar eu golwg. Mae'r Dystysgrif Nam ar y Golwg (Cymru) yn ardystio pobl yn ffurfiol fel bod "â nam ar eu golwg" neu "â nam difrifol ar eu golwg", fel y gall yr Awdurdod Lleol eu hardystio.

Cafodd y data ar y cofrestriadau hyn eu cyflenwi i'r tîm Casglu Data yn Llywodraeth Cymru gan y 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar ffurflen SSDA900 (Cofrestr o bobl ag anableddau corfforol neu synhwyrdd). Cyhoeddir y data'n flynyddol ynghyd â data ar gofrestrau awdurdodau lleol ar bobl ag anableddau dysgu fel "[Cofrestrau Awdurdodau Lleol o Bobl Anabl, Cymru](#)". Mae'r data'n cyfeirio at gyfanswm nifer y bobl ar y cofrestrau; nid yw gwybodaeth am gofrestriadau newydd wedi'i chynnwys.

Mae'r ffurflen yn cynnwys cyfres fanwl o wiriadau dilysu i sicrhau bod yr wybodaeth a roddir yn gywir a chyson. Ceir rhagor o wybodaeth ar ansawdd a'r dulliau yn yr [Adroddiad Ansawdd](#) perthnasol.

Nid oedd rhai awdurdodau lleol yn gallu cyflenwi'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani. Gall yr amcangyfrif o'r data o bobl ag anableddau dysgu yn y cofrestrau fod yn rhy isel gan fod cofrestru'n wirfoddol. Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno niferoedd ar yr holl bobl a ganfuwyd fel bod ag anabledd dysgu sy'n hysbys ar y pryd i'r awdurdod ac maent wedi'u cynnwys mewn cofrestr o gofnodion i ddibenion cynllunio neu ddarparu gwasanaethau.

Mae'r cofrestrau o bobl ag anableddau corfforol a synhwyrdd yn cynnwys pawb sydd wedi'u cofrestru o dan Adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948. Fodd bynnag, mae cofrestru'n wirfoddol a gall y ffigurau fod yn amcangyfrif rhy isel o'r niferoedd sydd ag anableddau corfforol neu synhwyrdd. Fodd bynnag, mae cofrestru nam difrifol ar y golwg yn rhag-amod i gael rhai budd-daliadau ariannol a gall y niferoedd yn y categori hwn fod yn fwy dibynadwy na'r rhai ar gyfer nam bychan ar y golwg neu anableddau eraill. Mae'r ffactorau hyn ynghyd ag ansicrwydd ynglŷn â pha mor rheolaidd y mae cynghorau'n adolygu ac yn diweddarau eu cofnodion yn golygu ei bod yn anodd gwybod pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth hon ac felly ni ellir edrych arni fel nifer pendant o bobl ag anableddau.

Mae cofrestru'n wirfoddol ac nid yw cael amrywiaeth, neu rai, budd-daliadau a gwasanaethau cymdeithasol yn ddibynnol ar gofrestru. Os nad yw'r unigolyn yn hysbys i wasanaethau cymdeithasol fel rhywun ag anghenion sy'n deillio o'r nam ar eu golwg, mae cofrestru'n gweithredu hefyd fel atgyfeiriad ar gyfer asesiad gofal cymdeithasol.

CVI: cofrestriadau newydd

Cafodd data ar gofrestriadau newydd ei gyflenwi gan Moorfields Eye Hospital NHS Foundation Trust o'r Gronfa Ddata ar gyfer data Epidemiolegol ar Dystysgrifau Nam ar y Golwg (DEVICE). Mae'r dadansoddiad yn cael ei ategu gan RNIB, yr NIHR Biomedical Research Centre for Ophthalmology a Choleg Brenhinol yr Offthalmolegyddion.

Mae'r cyfrif o gleifion fesul grŵp oedran, Bwrdd Iechyd a'r achos a gofnodwyd ar gyfer colli golwg wedi'i roi ar gyfer yr ystadegau hyn. Mae'r niferoedd yn gysylltiedig â chwblhau CVI (pob achos – rhai y gellid eu hatal ac na ellid eu hatal) gan offthalmolegydd ymgynghorol.

Achos colli golwg: mae nifer y CVI ar gyfer tri phrif glefyd y llygaid wedi'i roi, sy'n gallu arwain at ddallineb neu olwg rhannol os na wneir diagnosis a'u trin mewn pryd. Y rhain yw dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint (AMD), glawcoma a retinopathi diabetig. Ym mhob achos mae'r niferoedd yn cynnwys colli'r golwg o ganlyniad i bob achos fel y prif achos neu os nad yw'n brif achos, achos cyfrannol, a allai olygu bod unigolion yn cael eu cyfrif eto o dan gyflyrau eraill os oes mwy nag un achos cyfrannol. Noder, yn achos retinopathi diabetig, nid yw hyn yn gyfrif o bobl â diabetes sydd â nam ar eu golwg o ganlyniad i unrhyw achos.

Fel yr eglurwyd yn achos yr holl gofrestrïadau uchod, mae ardystio'n wirfoddol felly gallai'r gwir gyfraddau fod yn uwch na'r hyn a ddangosir gan y dadansoddiad hwn. Gall y niferoedd amrywio gan fod y perygl o golli golwg yn cael ei ddylanwadu gan anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys proffiliau ethnig, amddifadedd ac oedran y boblogaeth leol. Hefyd mae amrywiadau daearyddol yn y ffordd mae data'n cael ei gasglu a gall lefelau casglu data fod yn ganlyniad i ardystiadau heb eu cwblhau'n hytrach na'r nifer fach o achosion.

[Gwybodaeth am y data CVI.](#)

Y Gweithlu

Gweithlu Gofal Sylfaenol

Ceir niferoedd **ymarferwyr** o'r Rhestrau Perfformwyr, ar 31 Rhagfyr bob blwyddyn. Cyhoeddir y data hwn yn flynyddol gan HSCIC ac fe'i hailddefnyddir yn ystadegau Llywodraeth Cymru:

[General Ophthalmic Services, Workforce Statistics for England and Wales 31 December 2016.](#)

Er mwyn cynnal prawf golwg y GIG, rhaid i'r ymarferydd offthalmig fod wedi'i gofrestru ar restr Bwrdd Iechyd. Yn ôl rheoliadau 2005 GOS, rhaid cadw dau fath o restr: y Rhestrau Offthalmig (OL) a'r Rhestrau Atodol (SOL).

Rhaid cofrestru contractwyr ar Restr Offthalmig pob Bwrdd Iechyd lle maent yn darparu gwasanaethau GOS, ac felly gallant ymddangos fwy nag unwaith ar y Rhestrau Offthalmig, er mai dim ond unwaith fydd y contractwr yn cael ei gyfrif yn y ffigurau cenedlaethol a ddangosir yn yr adroddiad hwn.

Mae'n ofynnol bod ymarferwyr sy'n cynorthwyo i ddarparu GOS yn cael eu cofnodi ar y Rhestr Atodol gyda Bwrdd Iechyd, a gallant ymddangos ar Restr Atodol un Bwrdd Iechyd yn unig ar y tro. Fodd bynnag, trwy gael eu cofnodi ar Restr Atodol un Bwrdd Iechyd, gall ymarferydd gynnal profion golwg y mae'r GIG yn talu amdanynt mewn unrhyw ran o'r wlad.

Pan fydd Bwrdd Iechyd yn penderfynu, yn unol â'r rheoliadau, nad yw ymarferydd, yn ystod y chwe mis blaenorol, wedi darparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol i bobl yn ei ardal, gallant dynnu'r enw hwnnw oddi ar ei restru. Tynnir enwau ymarferwyr anweithredol o'r ddwy restr trwy gytundeb rhwng y Bwrdd Iechyd a'r ymarferydd.

Gall ymarferydd offthalmig fod â chontract â mwy nag un Bwrdd Iechyd, a byddai'n rhaid iddo gael ei gofnodi ar yr OL ar gyfer pob un o'r Byrddau Iechyd y mae ganddo gontract â hwy. Dim ond unwaith y byddai ymarferwyr sydd â chontract mewn mwy nag un Bwrdd Iechyd yn cael eu cyfrif yn y ffigurau cenedlaethol a ddangosir yn yr adroddiad hwn, ond byddai'n cael ei gyfrif ym mhob Bwrdd Iechyd lle'r oedd ganddynt gontract i ddibenion data ar lefel y Bwrdd Iechyd. Byddai ymarferwyr sydd â chontract yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cyfrif yng nghyfansymiau cenedlaethol y ddwy wlad.

Ni fydd pob ymarferydd a gofnodir ar restrau Byrddau Iechyd wedi cynnal profion golwg y mae'r GIG yn talu amdanynt. Hefyd, nid oes data'n cael ei gasglu ar yr oriau a weithir gan yr ymarferydd, na faint o amser mae'n ei neilltuo i'r GIG.

Gweithlu Ysbytai

Ffynhonnell y data hwn yw detholiad blynyddol ar gyfer 30 Medi pob blwyddyn o system Adnoddau Dynol / Cyflogres y GIG a elwir yn Gofnod Staff Electronig (ESR), sy'n cynnwys holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru a Lloegr. Am ragor o wybodaeth am ddata gweithlu'r GIG gweler:

[Gwefan Ystadegau a Ymchwil: Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG](#)

Diffiniadau:

Optometrydd neu Optegydd Offthalmig (OO)

Mae Optometrydd yn gymwysedig i brofi golwg ac i ragnodi ac i weinyddu sbectolau. Mae eu hyfforddiant yn eu galluogi i adnabod annormaleddau a chlefydau'r llygaid. Maent wedi'u cofrestru a'r Cyngor Offthalmig Cyffredinol (GOC).

Ymarferydd Meddygol Offthalmig (OMP)

Mae Ymarferydd Meddygol Offthalmig yn feddyg cymwysedig sy'n arbenigo yn y llygaid a gofal y llygaid. Yn ychwanegol at eu sgiliau meddygol, maent yn gymwysedig i brofi golwg a rhagnodi sbectolau. Maent wedi'u cofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC).

Data'r arolwg

Mae Arolwg Iechyd Cymru'n ffynhonnell gwybodaeth am iechyd a ffordd o fwy pobl Cymru sy'n gysylltiedig ag iechyd ac mae'n seiliedig ar sampl o'r boblogaeth gyffredinol sy'n byw mewn aelwydydd preifat yng Nghymru.

Mae'r arolwg yn cynhyrchu ystadegau yn y meysydd canlynol:

- Statws iechyd, salwch a chyflyrau eraill
- Ffordd o fyw
- Defnydd o'r gwasanaeth iechyd
- Iechyd plant

Mae'r canlyniadau llawn i'w gweld yn:

[Gwefan Ystadegau a Ymchwil: Arolwg Iechyd Cymru](#)

Mae dogfennaeth dechnegol ar gael yn:

[Gwefan Ystadegau a Ymchwil: Arolwg Iechyd Cymru: Adroddiad ansawdd](#)

Daeth Arolwg Iechyd Cymru i ben yn ei ffurf bresennol ar ddiwedd 2015, y canlyniadau ar gyfer 2015 felly yw'r set olaf o ganlyniadau Arolwg Iechyd Cymru.

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Roedd [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) yn 2014-15 yn gofyn tri chwestiwn newydd ar ofal y llygaid: gofynnwyd i ymatebwyr pa mor aml yr oeddent yn cael prawf golwg, pam nad oeddent wedi cael prawf golwg yn amlach, ac â phwy fyddent yn cysylltu i gael help yn y lle cyntaf os oedd ganddynt boen neu gochni yn eu llygad. Gofynnwyd y cwestiynau hyn eto yn 2016-17, ynghyd â chwestiwn cyffredinol ar olwg.

[Ceir rhagor o wybodaeth am gynnwys newydd yr arolwg.](#)

Byddardod

Mae crynodeb byr o'r ystadegau sydd ar gael sy'n gysylltiedig â byddardod a gwasanaethau cysylltiedig wedi'i ychwanegu at y datganiad hwn gan fod problemau clyw yn broblem gyffredin a chynyddol yng Nghymru.

Heb ddiagnosis a rheolaeth briodol, gall byddardod arwain at leihau gallu'r unigolyn i gyfathrebu, cadw bywyd cymdeithasol, cynnal iechyd gwybyddol, meddyliol a chorfforol da, a chael a chadw swydd. Mae anallu i gyfathrebu'n ynysu pobl oddi wrth y byd ac yn arwain at gostau uwch i'r GIG, y llywodraeth a'r economi genedlaethol, gan fod pobl yn gorfod rhoi'r gorau i weithio'n gynharach, heb allu rheoli cyflyrau iechyd eraill, ac mewn mwy o angen am gymorth dwys. Tybir fod pobl sydd wedi colli eu clyw fwy na dwywaith yn fwy tebygol o ddatblygu iselder na'u cymheiriaid sydd heb gollu eu clyw ac o leiaf ddwywaith yn fwy tebygol o ddatblygu dementia.

Ffynonellau data, diffiniadau a gwybodaeth am ansawdd ar fyddardod

Mae'r adran ar fyddardod yn defnyddio'r ffynonellau a ddisgrifiwyd uchod ar gyfer gofal llygaid.

[Arolwg Iechyd Cymru](#)

Ystadegau cleifion mewnol a chleifion allanol:

Ffynhonnell y data yw Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW) sy'n gronfa ddata o gofnodion cleifion ysbyty unigol a gedwir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS). Ceir rhagor o wybodaeth ar ffynhonnell y data hwn ar [wefan PEDW](#).

Diffinnir derbyniad fel y cyfnod cyntaf o ofal preswyl o dan ofal un ymgynghorydd gan un darparwr gofal iechyd. Mae derbyniadau'n cael eu cyfrif yn erbyn y flwyddyn pan maent yn cychwyn. Noder nad yw derbyniadau'n cynrychioli nifer y cleifion unigol, gan y gall unigolyn gael ei dderbyn fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn.

Defnyddir codau dethol o'r rhestrau isod yn y tablau clyw:

Diagnosis Codes for Hearing related conditions

Diagnosis_Code	Description
H90	Conductive hearing loss, bilateral
H901	Conductive hearing loss, unilateral with unrestricted hearing on the contralateral side
H902	Conductive hearing loss, unspecified
H903	Sensorineural hearing loss, bilateral
H904	Sensorineural hearing loss, unilateral with unrestricted hearing on the contralateral side
H905	Sensorineural hearing loss, unspecified
H906	Mixed conductive and sensorineural hearing loss, bilateral
H907	Mixed conductive and sensorineural hearing loss, unilateral with unrestricted hearing on the contralateral side
H908	Mixed conductive and sensorineural hearing loss, unspecified
H91	Ototoxic hearing loss
H911	Presbycusis
H912	Sudden idiopathic hearing loss
H913	Deaf mutism, not elsewhere classified
H918	Other specified hearing loss
H919	Hearing loss, unspecified
Q16	Congenital absence of (ear) auricle
Q161	Congenital absence, atresia and stricture of auditory canal (external)
Q162	Absence of eustachian tube
Q163	Congenital malformation of ear ossicles
Q164	Other congenital malformations of middle ear
Q165	Congenital malformation of inner ear
Q169	Congenital malformation of ear causing impairment of hearing, unspecified
Q171	Macrotia
Q172	Microtia
Q184	Macrostomia
Q185	Microstomia
Q754	Mandibulofacial dysostosis
Q780	Osteogenesis imperfecta
S046	Injury of acoustic nerve
T700	Otitic barotrauma

Diagnosis Codes for Hearing related procedures

Diagnosis_Code	Description
A305	REPAIR OF ACOUSTIC NERVE (VIII)
A315	INTRACRANIAL STEREOTACTIC NEUROLYSIS ACOUSTIC NERVE (VIII)
A325	DECOMPRESSION OF ACOUSTIC NERVE (VIII)
A345	EXPLORATION OF ACOUSTIC NERVE (VIII)
D07	Clearance of external auditory canal
D071	IRRIGATION OF EXTERNAL AUDITORY CANAL FOR REMOVAL OF WAX
D072	REMOVAL OF WAX FROM EXTERNAL AUDITORY CANAL NEC
D073	REMOVAL OF FOREIGN BODY FROM EXTERNAL AUDITORY CANAL
D078	OTHER SPECIFIED
D079	UNSPECIFIED
D08	Other operations
D081	EXTIRPATION OF LESION OF EXTERNAL AUDITORY CANAL
D082	RECONSTRUCTION OF EXTERNAL AUDITORY CANAL
D083	DRAINAGE OF EXTERNAL AUDITORY CANAL
D084	INCISION OF EXTERNAL AUDITORY CANAL
D085	IRRIGATION OF EXTERNAL AUDITORY CANAL NEC
D086	BLIND SAC CLOSURE OF EXTERNAL AUDITORY CANAL
D088	OTHER SPECIFIED
D089	UNSPECIFIED
D13	Attachment of bone anchored hearing prosthesis
D131	FIRST STAGE INSERTION FIXTURES BONE ANCHORED HEARING PROSTHE
D132	SECOND STAGE INSERTION FIXTURES BONE ANCHORED HEARING PROSTH
D133	REDUCTION SOFT TISSUE FOR BONE ANCHORED HEARING PROSTHESIS
D134	ATTENTION TO FIXTURES FOR BONE ANCHORED HEARING PROSTHESIS
D135	ONE STAGE INSERTION OF FIXTURES FOR BONE ANCHORED HEARING PR
D136	FITTING OF EXTERNAL HEARING PROSTHESIS TO BONE ANCHORED FIXT
D138	OTHER SPECIFIED
D139	UNSPECIFIED
D14	Repair of ear drum
D141	TYMPANOPLASTY USING GRAFT
D142	TYMPANOPLASTY NEC

D143	REVISION OF TYMPANOPLASTY
D144	COMBINED APPROACH TYMPANOPLASTY
D148	OTHER SPECIFIED
D149	UNSPECIFIED
D15	Drainage of middle ear
D151	MYRINGOTOMY WITH INSERTION OF VENTILATION TUBE THROUGH TYMP
D152	SUCTION CLEARANCE OF MIDDLE EAR
D153	INCISION OF EAR DRUM NEC
D158	OTHER SPECIFIED
D159	UNSPECIFIED
D16	Reconstruction of ossicular chain
D161	PROSTHETIC REPLACEMENT OF OSSICULAR CHAIN
D162	GRAFT REPLACEMENT OF OSSICULAR CHAIN
D168	OTHER SPECIFIED
D169	UNSPECIFIED
D17	Other operations on ossicle of ear
D171	STAPEDECTOMY
D172	REVISION OF STAPEDECTOMY
D173	DIVISION OF ADHESIONS OF OSSICLE OF EAR
D178	OTHER SPECIFIED
D179	UNSPECIFIED
D202	MAINTENANCE OF VENTILATION TUBE THROUGH TYMPANIC MEMBRANE
D203	REMOVAL OF VENTILATION TUBE FROM TYMPANIC MEMBRANE
D204	PLACEMENT OF HEARING IMPLANT IN MIDDLE EAR
D205	ATTENTION TO HEARING IMPLANT IN MIDDLE EAR
D206	REMOVAL OF HEARING IMPLANT IN MIDDLE EAR
D207	TRANSTYMPANIC INJECTION TO MIDDLE EAR
D22	Operations on Eustachian canal
D221	GRAFT TO EUSTACHIAN CANAL
D222	INTUBATION OF EUSTACHIAN CANAL
D223	INSUFFLATION OF EUSTACHIAN CANAL
D228	OTHER SPECIFIED
D229	UNSPECIFIED

D23	Operations on inner ear
D231	TRANSTYMPANIC INJECTION TO INNER EAR
D238	OTHER SPECIFIED
D239	UNSPECIFIED
D24	Operations on cochlea
D241	IMPLANTATION OF INTRACOCHELEAR PROSTHESIS
D242	IMPLANTATION OF EXTRACOCHELEAR PROSTHESIS
D243	ATTENTION TO COCHLEAR PROSTHESIS
D244	NEURECTOMY OF COCHLEA
D245	TRANSTYMPANIC ELECTROCOCHLEOGRAPHY
D246	REMOVAL OF COCHLEAR PROSTHESIS
D248	OTHER SPECIFIED
D249	UNSPECIFIED
U24	Hearing/balance assessments
U241	PURE TONE AUDIOMETRY
U242	BALANCE ASSESSMENT
U243	HEARING ASSESSMENT
U248	OTHER SPECIFIED
U249	UNSPECIFIED

Amseroedd aros

Gweler yr adran uchod ar gyfer [amseroedd aros](#)

Cofrestru

Gweler yr adran uchod ar gyfer [cofrestru](#)

Gweithlu

Gweler yr adran uchod ar gyfer [gweithlu](#)

Poblogaeth

Defnyddir amcangyfrifon canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn y datganiad hwn; ar gyfer 2016-17 cafodd amcangyfrifon canol blwyddyn 2015 eu defnyddio fel amcangyfrifon gan nad oedd amcangyfrifon ar gyfer 2016 ar gael ar adeg cyhoeddi. Mae'r amcangyfrifon wedi'u cyhoeddi ar [wefan StatsCymru](#).

Cwmpas

Ar y cyfan mae'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth, er enghraifft, mae nifer y profion golwg yn cyfeirio at y profion y talwyd amdanynt yn y

cyfnod 1 Ebrill hyd 31 Mawrth neu nifer y cleifion a gafodd eu sgrinio am retinopathi diabetig i'r nifer a gafodd eu sgrinio yn ystod y cyfnod 1 Ebrill hyd 31 Mawrth. Mae niferoedd y gweithlu gofal sylfaenol yn cyfeirio at y niferoedd ar 31 Rhagfyr a'r gweithlu ysbytai ar 30 Medi bob blwyddyn.

Byrddau Iechyd

Mae ffynonellau'r data yn rhoi data naill ai fesul Bwrdd Iechyd lle mae'r claf yn preswyllo neu fesul y driniaeth, fel a ganlyn:

Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol: Bwrdd Iechyd yn ad-dalu'r ymarferydd.

Archwiliadau Iechyd y Llygaid: Bwrdd Iechyd yn ad-dalu'r ymarferydd.

DESW: Mae'r Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar leoliad practis Meddyg Teulu'r claf.

Gwasanaeth Golwg Gwan: Bwrdd Iechyd yr Ymarferydd.

Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty / Colli clyw: Mae ffigurau sy'n seiliedig ar ddarparwyr yng Nghymru'n cynnwys cyfnodau o driniaeth i gleifion yn ysbytai'r GIG yng Nghymru a bydd yn cynnwys preswylwyr yng Nghymru a hefyd rhai sy'n preswyllo'r tu allan i Gymru sydd wedi cael eu trin yng Nghymru.

CVs: Mae cofrestrïadau fesul awdurdod lleol wedi cael eu cyfanredu i'r Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol yn ddaearyddol.

Gweithlu: Y Bwrdd Iechyd sy'n cyflogi.

Ffynhonnell y Data: Preswylwyr y Bwrdd Iechyd.

Defnyddwyr a defnyddiau

Nod yr ystadegau hyn yw rhoi crynodeb o wasanaethau gofal llygaid sy'n cael eu darparu'n awr yn y cyd-destun bod iechyd llygaid yn broblem gyffredin a chynyddol yng Nghymru. Eu nod yw cyflwyno data sydd ar gael o ffynonellau gweinyddol arferol mewn ffurf hygyrch i roi crynodeb o'r gwasanaethau gofal llygaid yng Nghymru a ddarperir o safbwynt tueddiadau dros amser a phatrymau ledled Cymru.

Mae rhai o'r defnyddwyr posibl yn cynnwys:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Llundwyr polisiâu Llywodraeth Cymru;
- Adrannau eraill y Llywodraeth;
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion;
- Cyrff proffesiynol;
- Dinasyddion unigol a chwmnïau preifat.

Defnyddir yr ystadegau mewn nifer o ffyrdd. Mae rhai enghreifftiau o'r defnyddiau'n cynnwys:

- Cyngor i Weinidogion;

- Fel sail i ddadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a thu hwnt.

Bydd yr ystadegau hyn yn ddefnyddiol o fewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru a byddant yn helpu i fonitro darpariaeth gwasanaethau cyfredol ac i ffurfio cynlluniau'r dyfodol i wella gwasanaethau. Yn fwy penodol, byddant yn sail i lawer o'r dystiolaeth ar gyfer Cynllun Gofal Iechyd Llygaid i Gymru sy'n cael ei ddatblygu ac a fydd yn cael ei fonitro a'i werthuso.

Rydym yn cyhoeddi [Cynllun Ymgysylltu â Defnyddwyr ar gyfer Ystadegau](#) sy'n disgrifio ein ffordd o ymgysylltu â defnyddwyr.

Rydym yn awyddus i ddeall yn well sut yr ydych yn defnyddio'r data a gyhoeddir gennym.

Os ydych chi'n ddefnyddiwr ac yn teimlo nad yw'r rhestr uchod yn ddigon perthnasol i chi, neu os hoffech chi gael eich ychwanegu at ein rhestr ddsbarthu, rhowch wybod trwy anfon e-bost atom yn ystadegau.iechyd@llyw.cymru

Cryfderau a Chyfyngiadau'r data

Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal llygaid yw:

- Atal iechyd llygaid gwael a nam ar y golwg
- Gwella canlyniadau iechyd llygaid
- Canfod ac ymyrryd yn gynnar
- Darparu gwasanaethau effeithlon, o safon uchel
- Sicrhau integreiddiad a darpariaeth sy'n canolbwyntio ar y cleifion.

Cryfderau

- Mae'r allbwn yn rhoi trosolwg o dueddiadau mewn gwasanaethau gofal llygaid yng Nghymru. Mae'n rhoi pwyslais penodol ar Gymru ac mae'n cynnwys tystiolaeth sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau datganedig Llywodraeth Cymru yn y maes polisi hwn. Ers 2014-5 mae ystadegau allweddol sy'n gysylltiedig â chanlyniadau'r Cynllun Gofal Llygaid wedi cael eu cyflwyno.
- Mae'r wybodaeth yn cael ei phrosesu a'i chyhoeddi'n rheolaidd ac mewn ffordd drefnus i alluogi defnyddwyr i weld yr ystadegau pan fyddant yn gyfoes ac yn fwyaf perthnasol.
- Gwnaethpwyd defnydd effeithlon o ffynonellau data gweinyddol i gynhyrchu allbynnau.
- Darperir ystadegau manwl trwy ein gwefan StatsCymru

Cyfyngiadau

- Mae'r ystadegau wedi'u cyfyngu o ran cwmpas i'r data sydd ar gael o'r ffynonellau gweinyddol hyn. Fodd bynnag, rydym yn cydweithio'n agos â chydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru a chyda Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a darparwyr gwasanaethau gofal llygaid eraill i ychwanegu cymaint o werth at yr ystadegau â phosibl.
- Mae gwybodaeth StatsCymru wedi'i bwriadu ar gyfer cynulleidfa fwy gwybodus, heb lawer o eglurhad ychwanegol i alluogi defnyddwyr eraill i ddehongli'r data'n briodol.

- O ganlyniad i'r gweinyddiaethau datganoledig a gwahaniaethau mewn polisi, nid oes llawer o gyfle i gael cymariaethau uniongyrchol rhwng gwahanol rannau o'r DU (gweler 'Cymharedd' yn ddiweddarach yn y ddogfen).

Cylch prosesu data

Casglu data:

Data GOS– mae Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS), Llywodraeth Cymru, yn cael data gweithgaredd cyfanredol (profion golwg a thalebau) ar gyfer yr ystadegau hyn gan Wasanaethau Gofal Sylfaenol, Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol. Mae Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn cyflenwi'r data cyfanredol i KAS ar ddechrau Ebrill ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae data cyfanredol Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru hefyd yn cael ei gyflenwi gan Gydwasanaethau Cymru.

Mae KAS yn parhau i weithio â darparwyr y gwahanol wasanaethau i wella dealltwriaeth o gefndir y setiau data ac i ganfod data allweddol cadarn i'w gynnwys. Mae pob un o'r canlynol yn darparu cyfrif cyfanredol: Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru, Ysbyty Moorfields.

Cafodd data ar gleifion mewnol, dydd ac allanol ei gyflenwi gan NWIS fel yr eglurwyd uchod.

Roedd data ar ardystio a chofrestru nam a nam difrifol ar y golwg wedi'i gyhoeddi eisoes ac fe'i codwyd o dabl perthnasol StatsCymru a'i ailgyfanredu fesul Bwrdd Iechyd.

Data'r gweithlu – daw hwn o ystadegau a gyhoeddir ar gyfer Cymru a Lloegr gan yr HSCIC (gweler uchod).

Dilysu a chadarnhau – Mae data o'r system daliadau, sy'n cynnwys cyfarpar canfod twyll, yn cael ei gyflwyno ar daenlenni EXCEL trwy Afon, system Llywodraeth Cymru i drosglwyddo data'n ddiogel ar y we. Mae gan y gwahanol setiau data ffynhonnell eu gweithdrefnau sicrhau ansawdd eu hunain a chyfeirir at y rhain uchod. Wrth ddatblygu adrannau newydd y datganiad bu KAS yn gweithio â'r darparwyr gwasanaeth gofal llygaid i ddeall y data a'r roedd y trafodaethau a gafwyd yn ffordd o wirio'r data ymhellach.

Cyhoeddi – Mae'r ystadegau a gyhoeddir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi yn dod o'r ffynonellau data a ddisgrifiwyd uchod. Mae'r adrannau newydd yn seiliedig ar waith ag adran polisi Llywodraeth Cymru a chydweithwyr yn y GIG. Mae'r wybodaeth yn y datganiad yn cael ei gwirio yn erbyn y data a gyflenwir yn annibynnol. Mae data cryno sy'n gysylltiedig â'r datganiad Ystadegau Gofal Llygaid hefyd yn cael ei diweddarau ar StatsCymru, ein pecyn cymorth rhyngweithiol ar y we.

Datgeliad a chyfrinachedd – Mae'r data hwn yn cael ei gyfanredu ar lefel pob Bwrdd Iechyd Lleol ac felly nid oes llawer o berygl y bydd gwybodaeth am unrhyw unigolyn yn cael ei datgelu. Rydym yn cydymffurfio â'n [datganiad ar gyfrinachedd a gweld data](#), a gyhoeddir i gydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn Egwyddor 5: Confidentiality of the Code of Practice for Official Statistics. Lle'r ydym wedi defnyddio data a gyflenwyd gan eraill rydym wedi dilyn eu gofynion rheoli hwy ar ddatgelu ee Ysbyty Moorfields.

Gwybodaeth Ansawdd Allweddol

Mae Ystadegau Cenedlaethol yn cael eu cynhyrchu'n ôl y safonau proffesiynol uchel a geir yn y Code of Practice for Official Statistics. Maent yn destun adolygiadau sicrwydd ansawdd rheolaidd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cwsmeriaid. Maent yn cael eu cynhyrchu heb unrhyw ymyrraeth wleidyddol.

Ansawdd

Mae'r Uned Ystadegau a Dadansoddi Iechyd yn cydymffurfio â [strategaeth ansawdd](#) ac mae hyn yn unol ag Egwyddor 4 y [Code of Practice for Official Statistics](#). Yn benodol, mae'r rhestr isod yn cynnwys gwybodaeth sy'n cyd-fynd â chwe dimensiwn ansawdd y System Ystadegol Ewropeaidd.

Perthnasedd

Ym mhob un o'n cyhoeddiadau rydym yn rhoi cefndir i'n hystadegau a gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr. Rydym yn annog defnyddwyr yr ystadegau i gysylltu â ni i roi gwybod i ni sut maent yn defnyddio'r data. [Yn 2012 trefnwyd digwyddiad i ddefnyddwyr gennym gyda'r nod o ddeall anghenion defnyddwyr yn well.](#)

Rydym yn ymgynghori â defnyddwyr allweddol cyn gwneud newidiadau, ac os yn bosibl rydym yn rhoi sylw i newidiadau ar y rhyngwrdd, mewn pwyllgorau a thrwy rwydweithiau eraill i ymgynghori'n fwy eang â defnyddwyr. Rydym yn ymdrechu i ymateb yn gyflym i newidiadau polisi i sicrhau bod ein hystadegau'n parhau'n berthnasol, ac rydym yn gwerthuso ac yn adolygu allbynnau gyda hyn mewn golwg.

Cywirdeb

Lle mae ystadegau'n seiliedig ar ddata sydd wedi'i fewnbynnu gan Wasanaethau Gofal Sylfaenol mae'n debygol o fod yn fwy cywir. Mae pob ffurflen GOS 3, GOS 4, GOS 5, GOS 6 yn cael eu mewnbynnu'n unigol ar y system daliadau. GOS 1 yw'r unig ffurflen sy'n cael ei mewnbynnu fesul swp oherwydd goblygiadau adnoddau mewnbynnu data'n unigol. O ganlyniad mae'r data cymhwysedd profion golwg yn seiliedig ar sampl o 2% (1 ffurflen mewn 50) o'r ffurflenni papur GOS 1 sydd wedyn yn cael eu rhoi fel rhif gros i gyfanswm hysbys y profion golwg ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol.

Ein nod gydag adrannau newydd y datganiad hwn fu rhoi cwmpas llawn y gwasanaethau a disgrifir ynddynt. Os nad oedd hyn yn bosibl neu os oedd data ar goll yna cyfeirir at hyn uwchben neu yn yr ystadegau eu hunain.

Mae ein holl allbynnau'n cynnwys gwybodaeth ansawdd allweddol ar gwmpas, amseriad a daearyddiaeth.

Er ei fod yn annhebygol, ond pe byddai data anghywir yn cael ei gyhoeddi, byddai newidiadau'n cael eu gwneud a byddai defnyddwyr yn cael eu hysbysu mewn cydweithrediad â threfniadau [Diwygiadau, Gwallau a Gohiriadau](#) Llywodraeth Cymru.

Amseroldeb a phrydlondeb

Mae pob allbwn yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer trwy roi dyddiad cyhoeddi ymlaen llaw ar dudalennau [i'w Cyhoeddi Cyn Hir](#) ar y wefan. Hefyd, pe bai'r angen yn codi i ohirio allbwn byddai hyn yn dilyn trefniadau [Diwygiadau, Gwallau a Gohiriadau](#) Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cyhoeddi datganiadau cyn gynted ag y bydd yn ymarferol bosibl ar ôl y cyfnod perthnasol. Roedd y datganiad Ystadegau Offthalmig fel arfer yn cael eu cyhoeddi ym mis Mai bob blwyddyn ar ôl cael y data gan Wasanaethau Gofal Sylfaenol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r fersiwn estynedig gyfredol o'r datganiad yn cael ei chyhoeddi ym mis Mehefin fel arfer er mwyn caniatáu amser i ddadansoddi'r setiau data ychwanegol.

Hygyrchedd ac eglurder

Mae'r ystadegau'n cael eu cyhoeddi mewn ffordd hygyrch, drefnus, sydd wedi'u cyhoeddi ymlaen llaw ar wefan Llywodraeth Cymru am 9:30am ar ddiwrnod eu cyhoeddi. Mae ffrwd RSS yn hysbysu defnyddwyr cofrestredig eu bod wedi'u cyhoeddi. Mae'r datganiadau'n cael eu cyhoeddi ar yr un pryd hefyd ar y National Statistics Publication Hub. Rydym hefyd yn tynnu sylw at ein hallbynnau ar [Twitter](#). Mae pob datganiad ar gael i'w llwytho i lawr yn ddi-dâl.

Mae data mwy manwl ar gael ar yr un pryd ar wefan StatsCymru a gellir ei ddefnyddio ar-lein neu ei lwytho i lawr ar daenlenni i'w ddefnyddio all-lein.

Rydym yn ymdrechu i ddefnyddio Cymraeg Clir yn ein hallbynnau ac mae pob allbwn yn cydymffurfio â [pholisi hygyrchedd](#) Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae ein holl benawdau'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. Mae nodiadau yn y datganiad ac yn yr Adroddiad Ansawdd hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth gefndir i helpu defnyddwyr i ddadansoddi'r ystadegau.

Dylai gwefannau Llywodraeth Cymru fod yn hygyrch er mwyn sicrhau mynediad cyfartal a chyfle cyfartal i bob defnyddiwr. Defnyddir "testun amgen" yn hytrach na delweddau ar gyfer pobl sy'n defnyddio darllenwyr sgrin er mwyn helpu defnyddwyr i ddeall cynnwys gweledol trwy roi disgrifiad byr o ddelweddau'r cynnwys.

Cymharedd

Pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r data a roddwyd, dangosir hyn yn eglur yn yr allbynnau. Os oes rhybudd ymlaen llaw wedi'i wneud o newidiadau i ddod gwneir cyhoeddiad ymlaen llaw ohonynt yn unol â threfniadau Llywodraeth Cymru.

Mae gwybodaeth debyg am y Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol ar gael am rannau eraill o'r DU ond mae hawliadau a threfniadau cyhoeddi'n wahanol. Mae ystadegau a gyhoeddir ar wasanaethau gofal llygaid eraill hefyd yn amrywio.

Mae ystadegau Gofal Llygaid ar gyfer Lloegr ar gael yn [NHS Digital](#) ac mae data ar CVI ar gyfer Lloegr ar gael yn yr [wefan Public Health Outcomes Framework](#).

Mae data gofal llygaid ar gyfer yr Alban ar gael yn [Information Services Division Scotland](#) ac ar gyfer Gogledd Iwerddon mae data ar gael yn [Business Services Organisation](#).

Cydlyniaeth

Pob blwyddyn mae'r data'n cael ei gasglu o'r un ffynonellau ac mae'n cydymffurfio â'r safon genedlaethol; bydd hefyd yn gydlynus o fewn ac ar draws sefydliadau iechedd gan ddeillio o ddata gweinyddol sy'n gysylltiedig â chontractau offthalmig. Yn achos y gwasanaethau newydd a ddisgrifir yn y datganiad, daw'r data o sefydliadau sengl sy'n gweithio'n ôl safonau cyffredin.

Lledaenu

Mae ansawdd y data i gyd yn ddigon da yn dilyn y prosesau a ddisgrifiwyd uchod i gyfiawnhau ei gyhoeddi. Mae'r negeseuon lefel uchel yn cael eu cyhoeddi ar dudalen gyntaf y datganiad perthnasol ac mae siartiau lefel uchel wedi'u cynnwys yn y datganiad. Mae data GOS manwl wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan ryngweithiol [StatsCymru](#). Mae atodiad taenlen ychwanegol o dablau hefyd yn cael ei gyhoeddi (ers 2013-14) i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr gael gweld y data. Yn 2015-16 cafodd dangosfwrdd rhyngweithiol o ystadegau allweddol ei gyhoeddi.

Gwerthuso a manylion cyswllt

Gan ein bod wedi ymestyn cwmpas y datganiad ystadegol hwn byddem yn arbennig o falch o gael sylwadau gan ddefnyddwyr ar y cynnwys a sut mae wedi'i gyflwyno. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â:

ystadegau.iechyd@llyw.cymru

Cynhyrchwyd gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Adolygiad diwethaf: Mehefin 2017

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn pennu saith nod llesiant i Gymru. Y rhain yw Cymru fwy cyfartal, ffyniannus, cydnerth, iachach ac sy'n fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n rhaid eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau Llesiant, a (b) chyflwyno copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynwyd y 46 dangosydd cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Gwybodaeth ar ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig - [Sut mae mesur cynnydd cenedl? – Dangosyddion Cenedlaethol](#)

Rhagor o wybodaeth am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn hefyd weithredu fel naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a gall Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus eu defnyddio mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Rhagor o fanylion

Mae'r ystadegau ar gael yn: <http://llyw.cymru/statistics-and-research/eye-care/?lang=cy>

Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir eu hanfon trwy e-bost i ystadegau.iechyd@llyw.cymru

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan [Drwydded Llywodraeth Agored v3.0](#), oni bai y nodir yn wahanol.

